# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 30 Tachwedd 2009

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

## *Gofyn i’r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai*

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Faint o gyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sydd wedi cael ei fuddsoddi yn y safle Prenergy Power ym Mhort Talbot. (WAQ55175)

***Rhoddwyd ateb ar 4 Rhagfyr 2009***

Nid yw gorsaf ynni Prenergy ym Mhort Talbot wedi cael unrhyw arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Faint o danwydd coed y disgwylir iddo gael ei brynu’n lleol ar gyfer rhedeg y safle Prenergy Power ym Mhort Talbot ar ôl iddo ddechrau gweithio ac a wnaiff y Gweinidog roi manylion y ffigur hwn fel canran o gyfanswm y tanwydd coed sy’n cael ei ddefnyddio gan y safle. (WAQ55176)

***Rhoddwyd ateb ar 4 Rhagfyr 2009***

Unwaith y bo'n weithredol, disgwylir i orsaf ynni Prenergy hylosgi tua 2,500,000 i 3,000,000 o dunelli o danwydd sglodion coed y flwyddyn. O'r cyfanswm hwn, mae Prenergy yn disgwyl y gellir deillio 5-10% yn ddomestig o fewn y DU. Mae hyn yn golygu y gallai hyd at 300,000 o dunelli ddod o ffynonellau yn y DU, fodd bynnag, mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi rhoi gwybod ei bod yn annhebygol y gellid deillio mwy na chyfradd fechan o Gymru.

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn)**: Pa asesiad y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wneud o’r adnoddau y mae eu hangen i weithredu Deddf Morol y DU yng Nghymru. (WAQ55177)

***Rhoddwyd ateb ar 4 Rhagfyr 2009***

Mae'r Tîm Morol yn fy Adran eisoes wedi'i atgyfnerthu i weithredu darpariaethau cynllunio morol, gwarchod natur a thrwyddedu Deddf y Môr a'r Arfordir 2009. Mae hyn yn cynnwys sefydlu Uned Cydsynio Morol benodol i weinyddu trwyddedau morol yn nyfroedd Cymru y mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol amdanynt ynghyd â bod yn bwynt cyswllt ar gyfer y gwaith hwnnw. O ran adnoddau rhaglen ar gyfer y gwaith hwn, bwriedir iddynt gynyddu o tua £20,000 yn y flwyddyn ariannol gyfredol i dros £100,000 yn 2010/11.

Caiff yr Uned Bysgodfeydd yn Adran Materion Gwledig Llywodraeth y Cynulliad ei hatgyfnerthu hefyd drwy ei chyfuno â'r Pwyllgorau Pysgodfeydd Môr i sefydlu cyfundrefn rheoli pysgodfeydd newydd. Caiff y gyfundrefn hon ei hariannu drwy ddargyfeirio adnoddau a roddir i'r awdurdodau lleol ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'r Pwyllgorau Pysgodfeydd Môr.

Caiff yr angen am adnoddau ychwanegol i gyflawni gwaith ar y Ddeddf yng Nghymru ei adolygu'n barhaus, ac adolygir hyn wrth i'r gwaith gweithredu fynd rhagddo.